**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol a Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o Offerynnau Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Gosodwyd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol a Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 gerbron Senedd y DU ar 11 Chwefror 2019 ac maent yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad yn awr. Mae'r gorchymyn ar gael yn:

https://beta.parliament.uk/work-packages/dP0mXn4e

**Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i nod**

3. Nod yr OS yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mewn perthynas â chymhwyso hawliau cleifion mewn gofal iechyd trawsffiniol.

4. Mae'r Gyfarwyddeb Drawsffiniol (Cyfarwyddeb 2001/24/EU) ("y Gyfarwyddeb") yn rhoi eglurder ynghylch hawliau cleifion i gael triniaethau cymwys mewn Aelod-wladwriaeth arall o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac i gael ad-daliad gan eu system gofal iechyd gartref. Cafodd y Gyfarwyddeb ei gweithredu yng Nghymru a Lloegr drwy Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) 2013. Bydd yr OS yn gwneud cywiriadau am ddwyochredd; yn dirymu'r Gyfarwyddeb sy'n rhoi deddfwriaeth ar waith fel nad yw bellach yn weithredol ar ôl y Diwrnod Ymadael gan roi trefniadau pontio yn eu lle i ganiatáu i effaith y Gyfarwyddeb barhau'n weithredol hyd at fis Rhagfyr 2020 ar gyfer gwledydd sydd wedi ymrwymo i gytundeb cyfatebol priodol gyda Llywodraeth y DU. Mae'r OS hefyd yn gwneud darpariaethau arbedion mewn perthynas â cheisiadau sydd yn yr arfaeth.

**Y ddarpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

5. Bydd yr OS yn diwygio Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Bydd yr OS yn dileu'r adrannau hynny (6A i 6BB) sy'n darparu y bydd Gweinidogion Cymru yn ad-dalu costau i breswylwyr Cymru ar gyfer triniaeth a gynlluniwyd ymlaen llaw mewn gwladwriaeth yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ynghyd ag adran 131(a)(ii) sy'n darparu i Weinidogion Cymru bŵer gwneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer talu

gan Weinidogion Cymru gostau teithio a ysgwyddir at ddibenion cael triniaeth wedi'i chynllunio ymlaen llaw mewn gwladwriaeth yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

6. Mae'r OS hefyd yn dileu adran 10 o Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1984 sy'n darparu i Weinidogion Cymru bŵer i ad-dalu costau triniaeth meddygol a mamolaeth mewn aelod-wladwriaethau o'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd.

7. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 5 uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu gofal iechyd.

**Pam y mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

8. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Er bod gofal iechyd yn faes sydd wedi'i ddatganoli, cyfyngedig yw'r posibilrwydd i Gymru roi polisi gwahanol ar waith oherwydd mae'n ofynnol bodloni rhwymedigaethau rhyngwladol yr ymrwymwyd iddynt gan y DU. Byddai'r rhain yn cynnwys trefniadau gofal iechyd rhyngwladol. Cafodd y Gyfarwyddeb ei throsi'n wreiddiol ar sail Cymru a Lloegr. Felly, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith, a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws Cymru a Lloegr yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd i gleifion a darparwyr. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Vaughan Gething AC**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

14 Chwefror 2019